# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar y 8fed o Fai 2018

**Cyfarfod Blynyddol:**
**Cofnodion:** Darllenwyd cofnodion Mis Mai 2017 gan y Cadeirydd a phaswyd eu bod yn gywir.

**Cyfarfod Misol:**
**Presennol:** Cynghorwyr Carys Morgan (Cadeirydd), Wyn Jones, Ruby Williams, Gerallt Davies a Barry Owen.
**Hefyd yn bresennol:** Ein Cynghorydd Sirol Marc Davies a'r Clerc.
**Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr Wyn Evans, Garym Roberts, Eiddwen Merritt a Jocelyn Andrew.
**Datgelu buddiannau:** Yn cael eu parchu.
**Cofnodion:** Darllenwyd cofnodion Mis Ebrill a'u cafwyd yn gywir.
**Codi o'r cofnodion:**
Dim.
**Materion Cynllunio:**
Rhif Cyf. A180273
Modurdy Forge, Ffosyffin.
Dymchwel golchfa ceir a codi un arall.
Dim gwrthwynebiad.
**Hywel Dda – Ymgynghoriad Cyhoeddus.**
Derbyniwyd wybodaeth ynglyn a'r Ymgynghoriad Cyhoeddus i drawsnewid ein Gwasanaeth Iechyd. Trafodwyd y gwahanol gynigion a gofynwyd i'r Cynghorwyr i lenwi'r holiadur arlein.
**Adolygiad o'r Gyllideb**
Derbyniwyd adolygiad o'r gyllideb flynyddol hyd at y 7fed o Fai 2018.
**Yswiriant y Cyngor Cymuned**
Yswiriant BHIB - £378.93.

**Ffioedd diogelu data – ICO**
Cofrestri gyda ICO - £35.00
**Unrhyw Fater Arall**
Soniodd y Cynghorydd Ruby Williams fod tyllau sylweddol yn y ffordd tu allan i New Foundry, Ffosyffin a gofynwyd i’r clerc i roi gwybod i’r Adran Briffyrdd.
Dywedodd ein Cynghorydd Sirol Marc Davies ei fod wedi gwneud ymholiadau pellach ynglyn ag arwyddion Derwen Gam a’i fod wedi cael gwybod fod yr arwydd yng nghanol y pentref yn mynd i gael ei beintio a’r arwydd sydd wedi ei ddwyn tu allani’t pentef yn cael ei ailosod.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 12fed o Fehefin.